**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 CHWEFROR 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mrs. Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon)

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 12:30

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran Mrs Rachel Williams a oedd yn methu mynychu'r cyfarfod.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Dywedodd y Cadeirydd fod y Llythyr Cylch Gwaith drafft ar gyfer 2016/17 wedi'i dderbyn, a bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am amcangyfrifon o gostau cynnal Arolygon Cychwynnol. Anogwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru i gynnig awgrymiadau ar Arolygon Cynghorau Tref a Chymuned y dyfodol fel rhan o'r ystyriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol awdurdodau newydd. Gofynnwyd i'r Comisiwn hefyd i ystyried rhyddhau staff am gyfnod byr er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i asesu cynrychiolaethau a dderbyniwyd o'r prosesau ymgynghori cyfredol. Diolchwyd y Comisiwn am ei sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Bil Democratiaeth Leol (Cymru).

2.2. **Cytunodd** y Comisiwn i ymateb i'r Llythyr Cylch Gwaith drafft, gan dynnu sylw at bryderon ynglŷn â'r ffrâm amser ar gyfer cwblhau'r arolygon; i ofyn i'r Prif Weithredwr ddatblygu syniadau ynglŷn â diwygio trefniadau etholiadol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned a'u trafod gyda'r Is-adran Noddi, ac i ofyn iddo benderfynu ynghylch y cais i ryddhau staff.

2.3. Gweithredu : Prif Weithredwr

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2016

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar wneud newid bach i baragraff 9.3.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Chwefror gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru o ran y materion canlynol:

- (Mater 2) Pwerau Gwneud Gorchmynion Cymunedol – disgwyl am gyngor cyfreithiol ar y broses. **Matt Redmond**
- (Mater 4) Cynllunio Arolygon Etholiadol – cyllidebau a chostiadau i'w darparu i'r Is-adran Noddi. **Matt Redmond**
- (Mater 6) Telerau ac Amodau Staff - bydd cyfarfod o Is-Bwyllgor y Gweithlu'n cael ei gynnal yn dilyn cyfarfod y Comisiwn ym mis Mawrth. **Steve Halsall**
- (Mater 8) Safonau'r Gymraeg – Roedd y Rheolwr Cymorth Busnes yn absennol ac yn mynychu sesiwn briffio ar Safonau a gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg; bydd adborth yn cael ei roi i gyfarfod nesaf y Comisiwn. **Rachel Williams**
- (Mater 14) Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus - I baratoi ar gyfer presenoldeb Cadeirydd y Comisiwn yng nghyfarfod mis Mawrth y Comisiwn, bydd nodyn briffio'n cael ei baratoi ar gyfer Aelodau. **Rachel Williams**
- (Mater 17) Gwobr Iechyd y Gweithle Bach – Paratoi ar gyfer gwneud cais yn y flwyddyn ariannol nesaf. **Rachel Williams**

## 5. Polisi Rhoddion, Gwobrau a Lletygarwch

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

5.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn. Penderfynwyd gohirio ystyried y Polisi drafft i'r cyfarfod nesaf er mwyn ymchwilio i fân newidiadau i'r Polisi, gyda'r bwriad o gysoni'r terfyn arian parod ar gyfer datganiadau â'r rheiny a gymhwysir gan Lywodraeth Cymru; i adrannau perthnasol gael eu hailddrafftio er mwyn cryfhau'r gofyniad i ystyried datgan rhoddion o bob ffynhonnell, a byddai cyfeiriadau at 'weision sifil' yn y testun yn cael eu newid i gyfeirio naill ai at 'Gomisiynwyr a staff' neu 'weision cyhoeddus' fel y bo'n briodol. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**

## 6. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Chwefror 2016 gan y Rheolwr Cyllid a **Nodwyd** y newidiadau canlynol:

- Mae Risg CR7 i'w hailddrafftio i gyfeirio'n benodol at Arolygon Cychwynnol, ac i gyfeirio at risg cyfnod amser annigonol i ymgymryd ag Arolygon. Y cam i liniaru'r risg oedd gweithred gan y Comisiwn i ofyn am ddiwygiadau priodol i'r ddeddfwriaeth ac unrhyw Gyfarwyddyd yn y dyfodol. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**
- Risg CR8 i wella camau lliniaru drwy ofyn am gyngor pellach gan Ystadau Llywodraeth Cymru. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**
- Risg CR9 i'w diwygio i adlewyrchu'r ffaith fod yr ardal o amgylch Tŷ Hastings yn cael ei hailddatblygu ar hyn o bryd. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**
- Risg CR10 - i'w hailddrafftio i gyfeirio'n benodol at arolygon o drefniadau etholiadol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, ac at y cyfnod amser a fydd ar gael i gwblhau'r gwaith arolygon yn llawn. Bydd y Comisiwn yn gofyn am

ddiwygiadau priodol i'r ddeddfwriaeth ac unrhyw gyfarwyddyd yn y dyfodol. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**

- Risg newydd sy'n datblygu - CR11 – i'w chyflwyno i nodi'r risg y bydd cyd-drafodaethau'n methu ar gyfer meddiannaeth Tŷ Hastings yn y dyfodol ar ôl i'r brydles gyfredol ddod i ben. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Chwefror 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Amlinellodd y Rheolwr Cyllid newidiadau yn nyraniadau'r gyllideb yn dilyn ildio cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru a derbyn cyllid ychwanegol i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru gan Swyddfa'r Cabinet. Codwyd pryder ynglŷn â'r amser a gymerodd i dderbyn anfoneb gan Wasanaethau Cyfreithiol y Llywodraeth i dalu am gyngor ynglŷn â'r Ffiniau Tua'r Môr, a byddent yn uwchgyfeirio'r mater ac yn mynd ar drywydd yr anfoneb. **Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes.**

7.3. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn.

## 8. Prydles Tŷ Hastings

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Chwefror gan y Rheolwr Cymorth Busnes ynglŷn ag adnewyddu prydles Tŷ Hastings. Cynghorwyd y Comisiwn gan yr Uwch Syrfëwr Ystadau i ofyn am gyngor cyfreithiol ar adnewyddu'r brydles gan Ethical Properties Ltd. **Cytunwyd** i gysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru i archwilio goblygiadau'r newidiadau posibl. **Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes.**

## 9. Adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Chwefror 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

9.2. **Nodwyd** yr adroddiad ac roedd yn amodol ar y newidiadau canlynol.

- Ar ôl derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio, bydd yr adolygiad o'r Cynllun yn cael ei ddiweddaru gydag unrhyw newidiadau gofynnol, a'i adolygu'n ffurfiol.
- Newid y dosbarthiad "fel bo'r angen / as necessary" i'w ddangos fel "Yn ôl disgresiwn / Discretionary"

9.3. **Cytunodd** y Comisiwn i ddiwygio'r Polisi fel yr awgrymwyd gan yr Adroddiad, a'i ailystyried ar ôl i Gomisiynydd y Gymraeg roi Hysbysiad Cydymffurfio i'r Comisiwn.

## 10. Adroddiad Comisiwn y Gyfraith

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Chwefror 2016 gan y Prif Weithredwr; i ystyried Adroddiad interim Comisiwn y Gyfraith ar Newidiadau i'r Gyfraith Etholiadol, a oedd wedi mabwysiadu'r newidiadau y gofynnodd y Comisiwn amdanynt ynglŷn â Dosbarthiadau Etholiadol.

10.2. **Nodwyd** yr adroddiad interim gan y Comisiwn.

**11. Bil Llywodraeth Leol (Cymru)**

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Chwefror 2016 gan y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr ar gynnydd mewn perthynas â Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Llywodraeth Cymru.

11.2. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar i'r Comisiwn.

11.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

**12. Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin**

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Ionawr 2016 gan y Swyddog Arolygon.

12.2. Bu'r Comisiwn yn trafod cyd-destun a'r rhesymu ynglŷn â chynigion Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin.

12.3. Llanelli Wledig a Llangennech – Cafodd y cynnig ei gytuno a byddai'r Swyddog Arolygon yn dod yn ôl i gynghori pe bai modd cysylltu lleoliad y ffin gan y Cyngor Sir â'u Cynllun Datblygu Lleol.

12.4. **Cytunwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

12.5. **Cytunwyd**, gan fod y wardiau etholiadol yn cydredeg â ffiniau Cymunedol Llanelli Wledig a Llangennech, i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ganiatâd i weithredu'r newidiadau ôl-ddilynol i'r wardiau etholiadol, cyn drafftio'r Gorchymyn. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

**13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Chwefror 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar Gynnydd presennol Arolygon.

13.2. Adroddwyd bod Arolwg Cymunedol **Caerdydd** wedi'i argraffu ac y byddai'n cael ei gyhoeddi ar 26 Chwefror 2016. Roedd Adroddiad Terfynol Arolwg Cymunedol **Castell-nedd Port Talbot** wrthi'n mynd drwy'r broses sicrhau ansawdd a byddai'n cael ei gyfieithu a'i argraffu maes o law. Trafodwyd Arolwg Cymunedol **Sir Gaerfyrddin** yn gynharach yn y cyfarfod, a derbyniwyd yr adroddiad; ac roedd y Comisiwn yn dal i ddisgwyl am ganlyniadau arolwg Cymunedol **Sir Ddinbych** o Brestatyn.

13.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

**14. Calendr Digwyddiadau**

14.1. **Nodwyd** y Calendr.

14.2. Rhoddwyd esboniad i'r Comisiwn gan y Dirprwy Brif Weithredwr ynglŷn â gwaith Arolwg Seneddol cyfredol y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

## 15. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

### Ardal Gwella Busnes Caerdydd

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr, dyddiedig 22 Chwefror 2016, mewn perthynas â datblygiad arfaethedig Ardal Gwella Busnes Caerdydd.

15.2. Teimlai'r Comisiwn, o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, y byddai cyfranogiad y Comisiwn yn y cynnig y tu hwnt i bwerau'r Comisiwn am ei fod yn torri Adran 12(2) y Ddeddf honno.

15.3. Cytunwyd i hysbysu tîm Ardal Gwella Busnes Caerdydd am y sefyllfa gyfreithiol, a phe bai safbwynt y Comisiwn yn cael ei herio, cytunwyd y dylid gofyn am gyngor cyfreithiol.

15.4. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

### Cyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio

15.5. Hysbyswyd y Comisiwn gan y Dirprwy Gadeirydd am gyfarfod 'Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio' a fynychodd yn ddiweddar gyda'r Rheolwr Cyllid. Roedd un o'r eitemau ar yr agenda yn y cyfarfod hwnnw wedi ymdrin â dadansoddi sicrwydd i'r bwrdd a darparwyd templed sampl at y diben hwn. Roedd y templed wedi'i addasu at ffynonellau sicrwydd bwrdd y Comisiwn, a'i ychwanegu at Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

15.6. Fel rhan o'r gwaith dadansoddi sicrwydd i'r Comisiwn, sefydlwyd bod yna fwlch yn y sicrwydd yn ymwneud â diffyg gwybodaeth lawn ar gyfer gwariant ar arolygon unigol. Bu'r Comisiwn yn trafod pa un a allai gyfrifo ar gyfer gwariant ar bob arolwg unigol yn y dyfodol fel rhan o'i sicrwydd i fesur ei gost-effeithiolrwydd. Fodd bynnag, penderfynwyd bod y prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd yn ddigonol, ac ar yr amod nad yw'r Comisiwn yn mynd uwchlaw ei gyllideb neu'r graddfeydd amser, yna mae'n gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon yn unol â'i lythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 22 Mawrth 2016**